

## Serenu yn *La Serenissima*.

### Cymru yn Biennale Fenis.

Mae hi yn boeth yn Fenis, ac yn llawn. Llawn o dwristiaid wrth gwrs, ond hefyd llawn o wybodusion a ffug wybodusion y byd celf. Dyma wythnos agoriadol Biennale Gelf Rhyngwladol Fenis, un o'r digwyddiadau pwysicaf ym myd Celf, ac un o'r hynaf. Hon yw 'cyfrol' 54, cynhaliwyd y gyntaf yn 1895 yn y ddinas a oedd unwaith yn weriniaeth annibynol a chysylltiadau masnachol a milwrol dros ran helaeth o'r byd. Galwyd y casgliad o ynysoedd yn y lagwn yng ngogledd yr Adriatic yn *La Serenissima* (y mwyaf tangnefeddys).

Mae'r Biennale ymlaen o ddechre Mehefin hyd fis Tachwedd. Yn y dechre', pafiliwnau i ddangos celf o brif wledydd (gwledydd ymerodraethol gan amlaf) y byd gorllewinol oedd yma, a rheini wedi eu adeiladu yng ngerddi'r Biennale, Y *Giardini*, yn amrywio yn eang yn eu pensaerniaeth; Awstria, Yr Almaen, Ffrainc, Prydain Fawr, UDA, Sweden, Gwlad Belg. Erbyn heddiw, mae nifer cynyddol o wledydd yn agor eu arddangosfeydd eu hunain y tu allan i'r gerddi, ymhob twll a chornel drwy'r ddinas; Yr Alban, Azerbaijan, Iwerddon, Serbia, Estonia, Canada a hyd yn oed Andorra. Eleni mae 89 cenedl yn cymeryd rhan i gymharu a 77 dwy flynedd yn ol, tra r'oedd llai nac ugain cyn 1950. Eleni fellu mae'r mwyaf erioed yn cyfrannu; yma am y tro cyntaf mae Zimbabwe a Haiti, sydd yn profi fod celf weledol gyfoes wedi ehangu i bob cwr o'r byd. R'ydydym ninnau o Gymru yn adnabod y broses yn dda, yma am y pumed tro, ac yn adnabod llawer o'r artistiaid sydd yn ymddangos yma. Mae'r artist o Israel, Yael Bartana yn arddangos ym Mhafiliwn Gwlad Pwyl, a gwelsom ei gwaith yng Nghaerdydd pan fu iddi gipio gwobr Artes Mundi llynedd. Mae bod yma, i ddangos i'r byd ein bod yn bodoli, ac fod gennym gyfraniad i'w wneud, wedi mynd yn obsesiwn ymysg y cenhedloedd. Mae bod yma, a hyrwyddo'r ffaith, ambell waith yn bwysicach na safon y celf sydd yn cael ei arddangos.

Mae bod yma hefyd yn job ddrud ar y naw. Mae hi yn ddrud i fod yn ymwelydd, ond hefyd yn ddrud i logi adeilad arddangos ac i greu cyhoeddusrwydd. Ond mae arian yn siarad yma, hen arian ac arian newydd. Hawdd gweld fod arian mawr yma, ar y cei wrth fynedfa'r *Giardini* mae y 'Luna' wedi angori, llong ysblenydd, enfawr Roman Abromovitch, a nid hi yw'r unig un ar y cei chwaith. A'i yn bwrpasol tybed mae Haiti wedi gosod dau *shipping container* rhydlyd ar y cei gerllaw, a'i llenwi a cerfluniau amrwd fetishistaidd *Voodoo*.

R'wyf yma yn yr wythnos *Vernissage*, hynnu yw, pedwar diwrnod i'r wasg, ac i'r agoriadau swyddogol, ni fydd yr arddangosfa yn agor i'r cyhoedd hyd y dydd Sadwrn. Bore lau, am 9.30 mae gwydre' o Bellini's a chaws Cenarth yn cael eu cynnig i'r gwahoddedigion yn lansiad arddangosfa Cymru oddiar *Via Garibaldi*, gwaith Tim Davies, arlunydd o Solfach sydd bellach yn byw yn y Mwmbwls. Dyma'r pumed tro i mi ymlwybro draw i'r ddinas ryfeddol hon, ar tro hwn r'wyn

falch o fod yma i gefnogi cyfaill, r'ydydym wedi arddangos gyda'n gilydd yn aml dros y ddau ddegawd aeth heibio. Mae dethol artist neu artistiaid i gynrychioli gwlad yn dasg astrys, a dadleuol yn aml. Nid pawb oedd yn hapus o'r dewis diwetha' sef y canwr a chyfansoddwr o'r Garnant ond bellach o L.A; John Cale. Sawl blwyddyn r'ydydym wedi cael cymysgedd o artistiaid, rhai wedi symud mewn i Gymru yn dra diweddar, a rhai wedi symyd allan flynyddoedd yn ol.

Eleni fedr neb gwestiynu hawl Tim Davies i gynrychioli Cymru, mae yn rhan anatod o'r gymuned gelf yma. Enillydd y Fedal Aur yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2003, ennillydd arddangosfa agored Y Mostyn, 1998, a bu ar y rhestr fer am wobr Artes Mundi yn 2004. Dros gyfnod o ugain mlynedd, mae ei waith wedi bod yn ymchwiliad i mewn i hunaniaith, diwylliant a gwleidyddiaeth Cymru, ond mae hefyd yn eangfrydig. Mae wedi creu celf mewn llawer rhan o'r byd, Talinn, Zagreb, Lodz, Guatemala, a gan amlaf, celf sydd yn cael ei greu yn arbennig fel ymateb i leoliad. Mae yn ddarlithydd celf yng Ngholeg Metropolitan Abertawe. R'oedd y teimlad o ddilysrwydd fellu yn galonnogol, pawb yn gefnogol o Tim a'i waith, ac roedd alltudion o Gymru yma ymhobman. Fel 'Steddfod, r'oeddym yn taro mewn i'n gilydd wrth grwydro drwy orielau, ac eglwysi, a *palazzos* wedi'i troi mewn i wagleoedd arddangos. Weithie byddem yn canfod ein gilydd, yn crwydro ar goll yn y tramwyfeydd cul sydd yn troelli drwy'r ddinas.

Yn y *Giardini ar Arsenale* (hen warws enfawr yn y dociau ble mae niferoedd o wledydd yn arddangos) mae pawb yn brysur yn cymeryd lluniau a ffilmio'r gwaith, a oes unrhyw un yn edrych arno gyda'i llygaid? Mae'r Biennale ar yr wythnos agoriadol yn Nefoedd ac yn Uffern ar yr un pryd. Wrth edrych ar y celf o gwmpas, a llawer ohonno yn disgyn rhwng dau begwn; o'r gor ymenyddol i'r gor lythrennol (a rhai fel lwerddon eleni yn wan iawn) y gorau yr ymddengys gwaith Tim. R'oedd popeth wedi ei wneud yn drefnys a thaclus a phroffesiynol tu hwynt. R'oedd awyrgylch yn cael ei greu o fewn yr hen leiandy a drawsffurfiwyd i ddangos y gwaith, y teimlad o symudiad, adeiladwaith, dwr a swm. Clychau eglwysig, a rhyw guro diddiwedd yn ein arwain drwy'r stafelloedd. Gwaith fideo ar scrins mawr yw y gwaith yn bennaf, (mae llawer o hyn yn y Biennale, ond nid ydynt fel arfer mor 'minimal' a rhai Tim, ac yn aml mae llais yn egluro, neu danseilio eglurhad) ond mae hefyd un mur o gelf mewn fframiau. Cardiau post o bontydd o bobman yn y byd yw y gweithiau yn y ffram, a phopeth yn y llun ond y bont wedi ei dileu. Mae dau waith fideo wedi cael eu creu yn uniongyrchol i Fenis. Yn 'Drift' gwelwn law yn trochi blaenau bysedd yn y dwr, golygfa tra cyfarwydd yn Fenis. Mae'r adeiladwaith enwog o boptu camlasau Fenis yn cael eu adlewyrchu yn y dwr, ond wrth i'r llaw geisio eu dal rhwng y bysedd, maen't yn chwalu fel rhith. Yn yr ail ddarn newydd, 'Frari' bu i'r artist gael caniatad arbennig i redeg fynnu grisiau twr clychau, y *Campanile de Santa Maria dei Frari* sydd yn dyddio o 1396, gan ffilmio'r waliau carreg wrth droelli yn uwch ac uwch. Wrth iddo ddringo mae'r clychau yn canu, yna yn ddisymwth daw allan o dywyllwch y twr a cawn ein dallu gan oleuni llachar yr awyr uwchben Fenis. Yna mae'r un broses yn ailgychwyn.

Mae'r arddangosfa yn cyfleu themau yn gynnil; adeiladwaith, pontydd (wel mae digonedd o rheini yn Fenis) y twr wrth gwrs, ond hefyd cofgolofnau i feirwon rhyfel. Yn ol yng Nghymru, bu'r artist yn ffilmio seremoniau wrth y Gofeb i Ryfel yng Nghaerdydd ac Aberystwyth. Mae yn rhedeg o amgylch un Caerdydd, gan ffilmio'r holl beth. Y byd yn troi a throi yn ei unfan, yr un hen seremoni, rhyfel, marw, cofio, rhyfel, marw, cofio. Mae'r eglwys yn chware rhan bwysig drwy sancteiddio rhyfel, gwelwn y rheithor yn sefyll yn ymyl merch ifanc mewn gwisg filwrol, ei phen yn gwyro wrth i'r plethdorchau gael eu gosod ar stepiau'r gofeb yn Aberystwyth. Mae rhyw fyrllwm o swm yn eich arwain o un ystafell i'r llall, curadurwyd yr arddangosfa yn gynnil gan Tom Rowland, sydd wedi gweithio sawl gwaith gyda Tim o'r blaen. Yn y lleoliad hwn, mae'r gwaith yn cael ei gyflwyno mewn ffordd sydd yn cryfhau y teimlad o berthnasrwydd, mae yn lleoli ei hun ac yn cymeryd ei le yn Fenis Tintorretto, Fenis Iedrihiol a thywyllodrus. Bu ymateb ymwelwyr celf i sioe Cymru yn gadarnhaol, ac efallai, yn fwy arwyddocaol, mae trigolion yr ynys hefyd yn ei ganmol. Y teimlad yw fod tuedd ymysg ymwelwyr i stompio dros yr hanes, a dros ffabric y ddinas, tra fod y gwaith hwn yn ceisio unieithu a'r lle mewn ffordd synhwyrus a hudolus.

Yn eironig, ar draws y ffordd i arddangosfa Cymru r'oedd un Irac, (a Bangladesh) ac fel y medrech fentro, mae rhyfel a cholledion rhyfel yn destyn i'r gwaith yno hefyd. Yn wir, mae llawer o wleidyddiaeth ar draws y Biennale. Tu allan i bafiliwn yr UDA o fewn y gerddi, mae tanc yn gorwedd megis chwilen wedi ei droi ar ei gefn, y traciau yn troi, nid drwy beiriant, ond drwy egni rhedwr yn defnyddio nhw fel melin draed mewn gymnasiwm. Yn agoriad arddangosfa Tsieina yn yr *Arsenale* mae pobl yn gwisgo bathodynau *Free Ai Weiwei*, yn cyfeirio at yr artist a garcharwyd yn Tsieina rai wythnosau yn ôl. Yn arddangosfa Azerbaijan, daeth gorchymun oddiwrth arlywydd y wlad i orchuddio gwaith y cerflunydd Aidan Salakhova y dydd cyn yr agoriad, ac fe'i gwelir gyda gorchudd gwyn drostynt. Dyma'r tro cyntaf i bafiliwn cenedlaethol ddiode sensoriaeth gan eu llywodraeth eu hunain.

Mae angen cymeradwyo ymdrech tim Cymru eleni, wel, tim Tim yn y bôn! Gan fod nifer o bobol wedi chware rhan yn y fenter. Cynhyrchwyd llyfryn swmpus i fynd gyda'r arddangosfa, ac ynddo mae stori ddiddorol gan y curadur sydd yn taro goleuni ar y ffordd mae daearyddiaeth – a damwain, yn newid cyfeiriad y gwaith yn llwyr. Mae safle'r arddangosfa yn rhagori ar yr *ex Birrerria* lle bu ein cynrychiolwyr yn arddangos hyd eleni. Er fod pleser i'w gael mewn cymeryd y bws dwr draw i ynys *Guidecca* i fynychu'r *ex Birrerria* (ie, hen fragdy), r'oedd yn ddiarffordd ac yn annodd denu tyrfa draw. Yma, yn y *Ludoteca Santa Maria Ausiliatrice*, r'ydydym rhwng y prif safleoedd; yr *Arsenale* ar *Giardini*, ac mewn rhan brysur a bywiog o'r ddinas. Mae naws yr adeilad yn hollol wahannol hefyd, ac yn gweddu'n well i natur synhwyrol gwaith Tim Davies.